# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Ebrill 13eg 2022

**Presennol**

Cyng. S.Roberts,Gwyn Jones,C.Dixon,D.Morris a P.Jenkins.

**Ymddiheuriadau:**

Cyng Gavin Jones.

**Cofnodion Mawrth 2022.**

Cynnigodd D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S.Roberts

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Beech Road,Hermon.

Nid yw'r cyngor cymuned wedi derbyn ymateb gan adran briffyrdd Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r e-bost a anfonwyd atynt ynglŷn â'r problemau ar Beech Road.

Mae Cyng Peredur Jenkins am gysylltu a Mr Williams, pennaeth yr adran briffyrdd ar y mater yma.

**Cynghorydd Sir.**

Cynnigodd y Cynghorydd Sarah Roberts ddiolch a gwerthfawrogiad i'r Cyng Jenkins am y gwaith a wnaed dros nifer o flynyddoedd ar ran y gymuned. Bydd Cyng Jenkins yn ymddeol o'i swydd yn etholiadau nesaf y cyngor ym mis Mai.

**Ffurfleni etholiad.**

Mae cynghorwyr cymuned wedi cyflwyno'r ffurflenni i'w hethol ym mis Mai. Mae'r Cynghorydd Gwyn Jones wedi hysbysu'r cyngor ar ôl sawl blwyddyn na fydd yn ceisio cael ei ail ethol ar hyn o bryd. Diolchodd y Cyng Sarah Roberts i'r Cyng Jones am ei flynyddoedd o wasanaeth i'r gymuned.

Cadarnhaodd y clerc fod yr holl hysbysiadau statudol mewn perthynas â'r etholiad sydd i ddod wedi'u gosod ar hysbysfyrddau cymunedol ac ar wefan y cyngor.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mawrth 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4397.58 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £8 |
| E.Ap Gomer (Y we) | £206 |
| Yn y Banc diwedd mis | £4083.58 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Rhoddion 2022-23

Fe fydd y cyngor yn dosbarthu'r roddion isod i'r gymuned;

Neuadd y pentref £350

Capel Libanus £150

Swyddog ariannol newydd.

Fe fydd Cyng Sarah Roberts yn yn ymgymryd â'r dyletswyddau o ganlyniad i ymddiswyddiad Mr Gwyn Jones.

Talu anfonebau.

Cytunodd y cynghorwyr dalu'r anfonebau isod;

| | |
|---|---|
| Llogi neuadd y pentref | £315.00 |
| Printer ink | £17.48 |
| E.W.Owen | £204.00 |

Oherwydd camgymeriad gweinyddol cytunodd y cyngor i ailgyhoeddi siec (£241.02)i dalu am waith trydanol a wnaed wrth osod y diffibriliwr yn Hermon.

Awdit 2020/21.

Cadarnhad fod dogfennau i ymwneud ar Awdit i gyd ar Wefan y cyngor.

Llythyrau & E.bost

Derbyniwyd e-bost gan Carys Williams (Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd) fel darn o apel gan y Cyngor Sir i ddatrys problemau nifer tai yn Gwynedd.

Mae'r Cyngor Sir yn gwneud apel i pobl y gymuned i rhoi ei barn ar y mater trwy cyfeiriad e-bost;

Datblygutai@gwynedd.llyw.cymru

Unrhyw fater arall.

Ar ol derbyn gwybodaeth ynglyn cyflwr perygl coed ger llwybr CNC rhif 311 yn Hermon mae'r cygor am i'r clerc yrru'r gwybodaeth i Mr Dylan Williams penaeth CNC